Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Maesincla

**Plas Pawb
Safle Ysgol Maesincla
Maesincla
Caernarfon
LL55 1DF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Maesincla

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Maesincla |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Manon Gwynedd |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Nicola Wyn Hughes-Jones, Nicola Williams |
| Person â gofal | Nicola Wyn Hughes-Jones |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 23 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 23 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 9.00-11.30 a 12.30-15.00Tymhorau ysgol yn unig |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Rhagfyr 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 27/01/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 23/05/2023 |
| Cymraeg yw prif iaith rhan fwyaf y plant<br>Ychydig iawn o blant sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Mireinio Cryfhau rôl yr oedolyn ymarferwyr i fanteisio ar bob cyfle i herio ac ymestyn medrau'r sgiliau plant yn eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ac yn awyddus i ymuno'n syth i chwarae gyda'i ffrindiau wrth gyrraedd. Mae bron bob plentyn yn hyderus wrth fynegi eu hunain ac mae eu dymuniadau yn cael eu parchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, mae'r plant yn ymuno â'r ymarferwyr wrth y bwrdd i fwyta eu byrbryd yn eu hamser eu hunain ac maent yn hyderus i ddweud nad ydynt eisiau gwisgo ffedog wrth beintio, gan wybod bydd ymarferwyr yn eu cefnogi. Mae bron bob plentyn yn symud o gwmpas yr ystod eang o weithgareddau a'r ardaloedd chwarae yn hyderus. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus.

Mae gan y plant berthynas bositif iawn gyda'r ymarferwyr ac yn gwybod y gallant ofyn am gymorth neu gysur pan maent ei angen. Er enghraifft, maent yn gofyn i'r ymarferwyr i ddarllen llyfrau iddynt, gan eistedd ar y clustogau wrth ochr ymarferwyr a gwrando'n astud. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, sy'n creu sicrwydd iddynt. Maent yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy'n eu gwneud yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos eu gwaith celf ac yn ymfalchïo wrth dderbyn canmoliaeth am eu hymdrechion.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda'i gilydd. Er enghraifft, wrth gydweithio i nôl dŵr i'r blodau gyda'r chwistrell, gydag un plentyn yn pwmpio'r dŵr a phlentyn arall yn anelu'r chwistrell a phwyso'r botwm. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau gyda ffrindiau ac yn dysgu medrau

cymdeithasol pwysig yn dda, fel cymryd tro. Er enghraifft, wrth chwythu swigod maent yn hapus i rannu'r hylif, i gymryd tro i roi'r ffyn yn yr hylif cyn chwythu a dal y swigod.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac maent yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, cawsant lawer o hwyl wrth arbrofi ac ychwanegu gwahanol ddeunyddiau i'r toes, gan gynnwys blodau wedi sychu a phlu. Mae bron bob plentyn yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg, fel chwarae'n ddychmygol yn yr ardal chwarae rôl a'r ardal byd bach.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau'n annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt sychu eu trwynau a gwisgo esgidiau glaw cyn mynd i chwarae yn y dŵr. Yn ogystal, yn ystod amser byrbryd, mae bron bob plentyn yn awyddus i olchi eu dwylo'n annibynnol ac i roi cynnig ar arllwys eu diod.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus ar draws pob maes dysgu. Mae bron bob plentyn yn gwrando a chyfathrebu'n dda wrth chwarae a rhyngweithio ag ymarferwyr a'u ffrindiau. Maent yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch ac yn ymgolli yn eu chwarae, er enghraifft wrth geisio adeiladu castell tywod gydag amrywiaeth o wrthrychau, gan gynnwys jwg, bwced a jar.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau edrych arnynt gydag oedolyn ac yn annibynnol a'u trin gyda pharch. Mae eu sgiliau cyn-darllen yn datblygu'n effeithiol, er enghraifft mae plant yn dilyn print â bys wrth ddarllen stori Mrs Wishi Washi. Mae medrau llafar a geirfa'r mwyafrif o blant yn datblygu'n briodol. Maent yn ymateb yn hyderus yn y Gymraeg ac yn frwd i ymuno wrth chwarae gemau iaith a chanu. Mae mwyafrif o blant yn mwynhau creu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer marcio mawr a bach yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu patrymau a lluniau yn y tywod tu allan gyda brwsys, pensiliau a ffyn.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y plant yn datblygu'n gadarn, gyda'r mwyafrif yn medru cyfri i ddeg yn llwyddiannus. Mae bron bob un yn adnabod siapiau 2D gyfarwydd, er enghraifft wrth estyn un darn o dost siâp sgwâr ac un darn siâp triongl yn y caffi. Maent yn arbrofi â siâp yn fedrus wrth adeiladu blociau pren ac yn defnyddio geirfa fathemategol cywir i ddisgrifio safle wrth ddisgrifio lleoliad y tedi yn ystod gêm. Mae'r mwyafrif yn mwynhau ymuno mewn ystod o ganeuon a rhigymau mathemategol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyfri am-yn-ôl wrth ganu cân y Pum Crocodeil.

Mae medrau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCH) y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n bwrpasol. Maent yn defnyddio ystod o offer yn annibynnol i gyfoethogi'u

chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, mae plant yn rheoli tegan rhaglenadwy yn llwyddiannus gan ei symud yn ôl ac ymlaen, a newid cyfeiriad.

Mae bron bob un plentyn yn archwilio'r ardal awyr agored yn hyderus ac yn datblygu eu medrau corfforol bras yn effeithiol iawn, er enghraifft wrth gydbwyso ar fwrdd cydbwyso pren neu wrth feistrioli'r wal ddringo. Maent yn weithgar yn gorfforol, yn unol â'u cam datblygiad ac yn estyn a gwisgo cot yn annibynnol. Yn yr ardal toes, maent yn greadigol wrth rolio, tynnu, gwasgu ac ychwanegu defnyddiau naturiol, megis petalau sych oddi ar flodau sych, i newid gwead y toes. Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau cydsymud yn fedrus gyda rheolaeth gynyddol, er enghraifft wrth reoli beiciau a cheir bach.

Mae medrau creadigol y mwyafrif o blant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau doeth am beth i ddefnyddio i greu gwaith creadigol, megis dewis lliw paent neu offer marcio yn yr ardal greadigol. Mae'r rhan fwyaf yn medru mynegi eu hunain wrth chwarae rôl o fewn cyd-destun go iawn yn effeithiol, er enghraifft, wrth wneud siocled poeth yn yr ardal gartref. Mae'r mwyafrif yn ymuno'n gadarnhaol wrth ddefnyddio offerynnau ac wrth wneud symudiadau i gyd-fynd â chaneuon a rhigymau cyfarwydd.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae bob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg, sy'n eu paratoi i roi triniaeth briodol pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol, gan sicrhau bod rhiant yn arwyddo'r cofnodion hyn. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn dilyn gweithdrefnau addas wrth drin bwyd a newid cewynnau. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus, gan gynnwys annog plant i fwyta byrbrydau iach ac yfed digon o ddŵr. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol ac i dreulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda'r plant ac maent yn siarad gyda nhw yn annwyl a'u trin gyda gofal a pharch. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn cynnig esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr

yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio'n effeithiol. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant yn amserol am gymorth gan asiantaethau allanol os oes angen, sy'n sicrhau bod anghenion bob plentyn yn cael eu diwallu'n effeithiol. Mae ymarferwyr yn olrhain cynnydd y plant yn llwyddiannus drwy gynnal arsylwadau ac asesiadau rheolaidd. Maent hefyd yn creu llyfrau pwrpasol i rannu â rhieni ar ddiwedd pob blwyddyn, sy'n cynnwys ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a rhai o'u llwyddiannau a'u cynnydd.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn meddu ar berthynas hyfryd â'r plant, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o anghenion bob plentyn. Maent yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnig profiadau gwerthfawr ac yn ymateb i anghenion plant yn llwyddiannus. Maent yn datblygu eu dulliau addysgu yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n drylwyr ar gyfer profiadau chwarae a dysgu er mwyn datblygu holl fedrau'r plant yn gadarn. Maent yn cydweithio'n gyson dda i feithrin ymdeimlad positif o fewn lleoliad sy'n annog plant i fod yn annibynnol ac ymholgar.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn bwrpasol. Yn yr arfer orau, maent yn hyrwyddo cynllunio ymatebol mewn ffordd fedrus sy'n annog y plant i feddwl dros eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r arferion hyn yn gyson ar draws y lleoliad. O ganlyniad, nid yw ymarferwyr bob tro'n herio'r plant yn ddigonol er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a datblygu'u medrau yn ddigon effeithiol. Mae ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn glir gan ddefnyddio geirfa a phatrymau cystrawennol addas wrth sgwrsio'n naturiol gyda'r plant. Er enghraifft, maent yn holi ac yn bwydo geirfa'n briodol wrth chwarae yn y dŵr. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n manteisio ar gyfleoedd buddiol i herio ac ymestyn geirfa a medrau llafaredd y plant.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gynllunio profiadau buddiol. Mae ystod o brofiadau dysgu a chwarae tu fewn a thu allan yn cael effaith cadarnhaol ar ddatblygiad y plant. Mae ymarferwyr yn chwarae ochr yn ochr â'r plant yn bwrpasol er mwyn cefnogi'r dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn creu patrymau, llythrennau a rhifau yn y tywod lliwgar er mwyn annog y plant i wneud hyn hefyd. Gwneir defnydd da o gyfnodau cymdeithasol er mwyn symud y dysgu ymlaen. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i blant estyn eu llestri eu hunain yn y caffi. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu trwy brofiadau hwylus, ymarferol a chreadigol, megis dilyn cyfarwyddiadau gweledol i greu cacen yn y gegin fwd neu gyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth a chaneuon.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn gadarn. Er enghraifft, maent yn canu gweddi i ddiolch am y cylch ar ddiwedd bob sesiwn. Mae ymarferwyr yn dysgu'r plant am y gwahaniaeth rhwng da a drwg a phwysigrwydd parchu eraill, gan gefnogi'r plant yn effeithiol i fod yn garedig gyda'i gilydd. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda gan godi

ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau arwyddocaol, megis Dydd Gwyl Dewi.

Mae dulliau addysgu'r ymarferwyr yn llwyddo i ysgogi'r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau'n gadarn. Maent yn cynnal arsylwadau gwerthfawr yn gyson gan ganolbwyntio ar gynnydd plant, ac mae systemau cofnodi'r arsylwadau yma'n drwyadl. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i ymateb i anghenion y plant ac i symud y dysgu ymlaen. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth am y plant gyda'i gilydd yn fedrus gan addasu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen.

Mae gan ymarferwyr ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd datblygiad plentyn, ac maent yn defnyddio hyn yn gadarnhaol i ymateb i'w hanghenion unigol. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i sicrhau bod cynlluniau a gweithdrefnau cadarn y neu lle ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant drwy ddarparu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posib a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae gwiriadau o'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu cwblhau'n ddyddiol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beryglon yn bresennol a bod yr offer yn addas ar gyfer y plant. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae ymarferwyr yn delio gyda'r rhain yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn drwy arddangos esiamplau o waith y plant a ffotograffau ar y waliau. Mae'r ystafell chwarae wedi ei threfnu i ardaloedd dysgu pwrpasol gydag amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol a'r rhai sydd wedi'u hailgylchu i gyfoethogi profiadau'r plant. Er enghraifft, mae llestri te go iawn, tegell a ffôn wedi eu hailgylchu a photeli a phacedi gwag ar gael yn yr ardal chwarae rôl. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio lliwiau naturiol, sy'n creu awyrgylch tawel a heddychlon ac yn helpu'r plant i fedru ymgolli yn eu chwarae. Mae'r ardal chwarae tu allan wedi cael ei datblygu i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleodd cyffrous i blant chwarae a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae arweinwyr yn darparu cegin fwd ac ardal byd bach gyda deinosoriaid yn cynnwys cerrig bach a phlanciau pren. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau bod digonedd o gyfleodd i blant fedru datblygu eu sgiliau corfforol a chymryd risgiau derbyniol. Er enghraifft, mae ymaferwyr yn goruchwylio plant yn ofalus i'w galluogi i gydbwyso wrth gerdded ar hyd y llwybr planciau pren a dringo i fyny'r ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau'n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da. Mae arweinwyr yn sicrhau bod offer ac adnoddau yn hybu annibyniaeth y plant, er enghraifft, drwy sicrhau bod adnoddau ar gael i helpu'r plant i

ddysgu defnyddio’r toiled yn annibynnol. Mae dewis o adnoddau ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ac o ddiwylliannau gwahanol, gan gynnwys amrywiaeth dda o lyfrau, doliau a jig-sos. Mae hyn yn helpu’r plant ddysgu i fod yn ddinasyddion goddefgar ac i ddeall gwahaniaethau yn y byd o’u cwmpas.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau arwain y lleoliad yn gadarn ac maent yn canolbwyntio’n effeithiol ar wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Maent yn gosod disgwyliadau uchel yn gyson dda drwy gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau. Mae arweinwyr yn mynd i’r afael â phryderon wrth rieni/ gofalwyr yn effeithiol, gan gadw cofnodion manwl ohonynt.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu’r materion y maent yn dymuno’u gwella ac yn gweithredu arnynt yn gyflym ac yn effeithiol. Maent yn creu cysylltiadau buddiol gydag ystod o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Mae ganddynt gysylltiadau cadarn gyda’r athrawes ymgynghorol a’r swyddog hylendid dannedd, ac yn annog y plant i frwsio dannedd pob sesiwn. Maent yn creu cysylltiadau gwerthfawr gyda’r gymuned ehangach er mwyn cynnig ystod o brofiadau manteisiol i’r plant, gan gynnwys y ganolfan hamdden gyfagos.

Mae arweinwyr yn ystyried barn ymarferwyr a rhieni/gofalwyr yn effeithiol, gan gasglu adborth yn achlysurol drwy holiaduron. Maent yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr gyfrannu at hunan arfarniad y lleoliad yn bwrpasol. O ganlyniad, mae’r arweinwyr yn llwyddo i wella’r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent wedi datblygu’r ardal tu allan yn effeithiol er mwyn cynnig ystod fwy eang o brofiadau i’r plant, gan ddilyn egwyddorion ysgolion goedwig.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol ac mae gan bob ymarferydd gytundeb cyflogaeth a swydd-ddisgrifiad perthnasol. Mae'r broses rheoli perfformiad wedi sefydlu’n bwrpasol, a cheir cofnodion cynhwysfawr o ganfyddiadau ac o dargedau’r ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn cael cyfleoedd da i fynychu ystod o hyfforddiant ac yn cymhwyso eu dysgu yn llwyddiannus. Eleni, maent wedi derbyn hyfforddiant ar ddatblygiad corfforol yn y blynyddoedd cynnar ac ysgolion goedwig. Gwelir effaith y ddau yn glir yn y lleoliad. Er enghraifft, maent wedi datblygu ardal corfforol ar wahan er mwyn cynnig cyfleoedd i blant ymarfer a chymhwyso’u sgiliau corfforol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllid a grantiau ariannol er mwyn gwella’r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent wedi datblygu’r ardal tu allan drwy ymestyn y lle sydd ganddynt, gosod offer ddringo, llawr addas a thalu am ffens i’w hamgylchynu. O ganlyniad, mae’r ddarpariaeth tu allan yn cynnig cyfleoedd ehangach i blant ddatblygu eu medrau.

Mae gan y lleoliad perthynas cryf â rhieni/gofalwyr. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cyfathrebu’n effeithiol â nhw er mwyn medru gweithio’n effeithiol i wella lles a dysgu’r plant o ddydd i ddydd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio ap i olrhain cynnydd a chyfathrebu yn fedrus i adrodd yn unigol ar gynnydd, datblygiad a gofal plant drwy luniau ac i hysbysu rhieni/gofalwyr o negeseuon pwysig, megis yr angen i

ddarparu het ac eli haul i'r plant. Gwneir defnydd da o lyfrau 'Taith Ddysgu' i ddangos cynnydd unigolion yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae prif bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad wedi'u hysbysu yn glir i rieni/gofalwyr wrth y brif fynedfa.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau pontio trylwyr sydd yn sicrhau bod y plant yn medru trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol. Maent yn cynnal sesiynnau ymgyfarwyddo yn yr ysgol a bydd yr arweinwyr a'r gweithwyr allweddol yn mynychu cyfarfodydd gyda'r ysgol, rhieni/gofalwyr ac unrhyw asiantaethau eraill sydd ynghlwm âg unigolion âg anghenion dysgu ychwanegol er mwyn trosglwyddo gwybodaeth am ddatblygiad a chynnydd y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/07/2023